Cyfle am Swydd

**UNDEB AMAETHWYR CYMRU - Ymgynghorydd Technegol**

**Lleoliad:** Dwyrain Cymru - wedi'i leoli yn unrhyw un o'n swyddfeydd yn Nwyrain Cymru.

Trefaldwyn: Uned 2, Parc Busnes St Giles, Y Drenewydd, Powys SY16 3AJ

Brycheiniog a Maesyfed: Pafiliwn UAC, Maes Sioe'r Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol, Llanelwedd, Llanfair ym Muallt LD2 3NJ

Gwent: Uned 2, Tŷ Waddington, Canolfan Busnes Llanover, Y Fenni, Sir Fynwy NP7 9HA

Morgannwg: Locks Yard, Heol Llan, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 6BU

**Cyflog:** £32,000 - £36,000
**Contract:** Llawn amser, 35 awr

**Dyddiad Cau:** 16eg Ionawr 2026 - *rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd hon os ceir ymgeisydd addas cyn y dyddiad hwn*

**Am fwy o wybodaeth:** e-bostiwch Emyr.Davies@fuw.org.uk

**I wneud cais**: Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol at Emyr.Davies@fuw.org.uk

**Pam Ymuno â'r UAC?**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn llais uchel ei barch a dylanwadol mewn amaethyddiaeth Cymru, gyda hanes cyfoethog a dyfodol dynamig. Trwy ymuno â'n tîm, byddwch yn dod yn rhan o fudiad ar lawr gwlad sy'n cael effaith uniongyrchol ar fywydau ffermwyr Cymru a chymunedau gwledig. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr brwdfrydig ac ymroddedig, gan gyfrannu at achos sy'n bwysig i bob un ohonom. Os ydych chi'n chwilio am rôl lle gallwch chi wneud gwahaniaeth go iawn, rydyn ni eisiau clywed gennych chi.

**Am y Rôl**

Fel Ymgynghorydd Gwasanaethau Technegol i Undeb Amaethwyr Cymru, byddwch yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi ein haelodau gyda gofynion technegol Cynlluniau Llywodraeth Cymru a rheoliadau statudol eraill. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor a chymorth arbenigol i helpu ffermwyr i gydymffurfio â gofynion amaeth-amgylcheddol, gan sicrhau bod ganddynt y gwasanaethau angenrheidiol i fodloni'r safonau hyn. Mae'r rôl yn bennaf yn seiliedig ar y maes, sy'n golygu y bydd llawer o'ch gwaith yn cael ei wneud ar ffermydd ein haelodau, lle byddwch yn cynnig arweiniad wedi'i deilwra i fynd i'r afael â'u hanghenion unigryw.

Yn ogystal â darparu cefnogaeth dechnegol, byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau i hyrwyddo a gwerthu gwasanaethau'r UAC, gan sicrhau bod aelodau cyfredol a darpar aelodau yn ymwybodol o'r ystod lawn o gymorth sydd ar gael iddynt. Bydd eich rôl hefyd yn cynnwys diweddaru'r timau rhanbarthol ar y Cynlluniau diweddaraf Llywodraeth Cymru, gan sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth i gynorthwyo aelodau'n effeithiol. Byddwch yn cydweithio â'r Tîm Polisi, yn enwedig y Pennaeth Polisi, i gyfrannu at ddatblygu a mireinio'n gwasanaethau technegol, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion esblygol aelodau.

Bydd gennych hefyd rôl weithredol wrth hyrwyddo arferion gorau ac annog cydymffurfiaeth ymhlith aelodau trwy weithio gyda'r timau cyfathrebu a marchnata. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at gynnwys ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, cyhoeddiad yr UAC *Y Tir* a sianeli cyfathrebu eraill. Bydd eich ffocws ar ehangu gwasanaethau ac edrych am gyfleoedd newydd sy'n cyd-fynd ag anghenion aelodau, gan gyfrannu'n y pen draw at dwf aelodaeth o fewn y rhanbarth. Fel rhan o'ch cyfrifoldebau, byddwch yn darparu adborth rheolaidd i'r Rheolwr Rhanbarthol ac yn cadw at bob polisi a gweithdrefn fewnol, gan sicrhau eich bod yn cynnal perfformiad a phroffesiynoldeb uchel bob amser.

**Amdanoch chi:**

Rydym yn chwilio am unigolyn gwybodus a rhagweithiol gyda dealltwriaeth gref o Gynlluniau Llywodraeth Cymru a rheoliadau amaeth-amgylcheddol. Byddwch yn gyfforddus yn gweithio yn y maes, yn cynnig cyngor ymarferol i ffermwyr ac yn sicrhau cydymffurfiad â gofynion technegol.

**Hanfodol:**

- **Arbenigedd Technegol**: Gwybodaeth gref o Gynlluniau Llywodraeth Cymru a rheoliadau statudol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth ac arferion amaeth-amgylcheddol.

- **Sgiliau Cynghori**: Gallu profedig i ddarparu cyngor arbenigol, clir a gweithredadwy i ffermwyr, gan eu cynorthwyo i fodloni gofynion technegol a chydymffurfio.
- **Profiad yn y Maes**: Yn gyfforddus yn gweithio yn y maes, gan ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau ar eu ffermydd i ddarparu atebion wedi'u teilwra.
- **Sgiliau Cyfathrebu Cryf**: Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol i ymgysylltu'n effeithiol ag aelodau, timau rhanbarthol a rhanddeiliaid.
- **Cydweithredu**: Y gallu i weithio mewn cydweithrediad â thimau mewnol.
- **Sgiliau Trefnu**: Y gallu i reoli tasgau a chyfrifoldebau lluosog yn effeithiol, gan gynnwys cynllunio, hyrwyddo gwasanaethau a darparu cymorth technegol.
- **Ymrwymiad i Gydymffurfio**: Sicrhau bod pob gweithred yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r UAC, gan bwysleisio hyrwyddo arferion gorau.
- **Hunan-Gymhelliant**: Y gallu i weithio'n annibynnol a rheoli'ch llwyth gwaith yn effeithlon mewn rôl yn y maes.

**Dymunol:**

- **Profiad Hyfforddi**: Profiad mewn hyfforddi a chefnogi cydweithwyr neu dimau rhanbarthol ar gynlluniau, rheoliadau, neu wasanaethau technegol newydd.
- **Sgiliau Iaith Gymraeg**: Mae Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn fantais fawr.
- **Y gallu i Ddatrys Problemau**: Profiad o nodi bylchau mewn gwasanaethau ac o fynd ati i chwilio am gyfleoedd i wella neu ehangu cymorth i aelodau.
- **Profiad gyda Gwasanaethau Aelodau**: Profiad blaenorol o hyrwyddo a gwerthu gwasanaethau amaethyddol i aelodau neu gleientiaid.